**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-550
Ein cyf/Our ref CS/01052/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

William.powell@wales.gov.uk

19 Awst 2014

Annwyl Bill

**Deiseb – P-04-550 Pwerau Cynllunio**

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn ag ymholiad drwy ddeiseb ynghylch pwerau cynllunio i fynd i'r afael â safleoedd gwag a segur sy'n falltod ar gymunedau ac yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ar hyn o bryd, mae adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi'r pwerau i awdurdodau cynllunio lleol fynd i'r afael â chyflwr tir sy'n cael effaith andwyol ar eu hardal. Caiff awdurdod cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad i berchennog a meddiannydd y tir i'w gwneud yn ofynnol iddynt gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i wella cyflwr y tir. Dylai camau o'r fath fod yn fodd i wella golwg safleoedd segur.

Mae'r pwerau presennol a roddir o dan adran 215 yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol safleoedd diffaith. Ar hyn o bryd, rwyf wrthi'n ystyried a oes angen cyflwyno gwelliannau pellach, ac yn edrych ar argymhellion yr adolygiad a gomisiynwyd gennyf o'r system gorfodi cynllunio yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013. Bydd unrhyw newidiadau priodol yn cael eu cynnwys ym Mil Cynllunio (Cymru) pan gaiff ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddarach eleni.

Caiff copi o'r llythyr hwn ei anfon at Alun Ffred Jones, Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*